Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Ein cyf: NB

Gofynnwch am: Cyfathrebu

01656 641150

Dyddiad: 7 Medi 2020

Cyfathrebu
@ombwdsmon.cymru

Cynghorydd Anthony Hunt
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Trwy Ebost yn Unig**
Anthony.Hunt@torfaen.gov.uk

Annwyl Cynghorydd Hunt

**Llythyrau Blynyddol 2019/20**

Mae'n bleser gennyf ddarparu fy Llythyr Blynyddol (2019/20) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Yr wyf yn ysgrifennu hyn yn ystod cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r sawl sy'n eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r data yn yr ohebiaeth hon yn gysylltiedig â'r cyfnod cyn y cynnydd cyflym yn ymlediad Covid-19 a chyn cyflwyno cyfyngiadau ar weithgareddau economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae'r pandemig yn parhau i gael ar bob un ohonom.

Yr wyf yn falch o ddweud y bu'n rhaid inni, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn cyfran lai o gwynion am gyrff cyhoeddus: 20% o gymharu â 24% y llynedd.

Cyfeiriasom hefyd gyfran lai o gwynion y Cod ymddygiad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru: 2% o gymharu â 3% y llynedd.

O ran cwynion newydd yn ymwneud ag Awdurdod Lleol, mae'r cyfanswm wedi gostwng o 2.4% o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Yr wyf hefyd yn falch y bu'n rhaid inni ymyrryd mewn cyfran lai o'r achosion a gaewyd (13% o gymharu â 15% y llynedd). Wedi dweud hynny, yr wyf yn bryderus bod ymdrin â chwynion yn parhau fel un o'r prif bynciau ein cwynion eto eleni.

Ymhlith prif uchafbwyntiau'r flwyddyn, yn 2019 pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach) ein Deddf newydd. Erbyn hyn, ni yw'r swyddfa Ombwdsmon gyntaf yn y DU i fod â phwerau llawn a gweithredol i ysgogi gwelliannau systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy ymchwilio 'ar ein liwt ein hunain' a'r rôl Safonau Cwynion.

Yn 2019/20, yr ydym wedi ymgysylltu'n helaeth ag Awdurdodau Lleol ynglŷn â'r mater hwn, gan gychwyn defnyddio ein pwerau Safonau Cwynion newydd.

Cyflwynodd Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddata am y cwynion a ymdriniwyd ganddynt i'r Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) am y tro cyntaf yn 2019/2020, gan ddatgelu gymaint mwy am y sefyllfa cwynion yng Nghymru.

Mae'r data a gyflwynwyd ar gyfer 2019/2020 yn dangos:

- Cofnodwyd dros 13,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol - 4.25 ar gyfer pob 1000 o drigolion
- Cadarnhawyd bron i hanner (42%) y cwynion hynny yn llawn neu'n rhannol
- Ymchwiliwyd i oddeutu 80% (79.51%) ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith
- Yn y pen draw, cyfeiriwyd oddeutu 7% (6.91%) o'r holl gwynion at OGCC.

Bydd yr ASC yn gweithio â chyrff cyhoeddus i sicrhau bod y data a gyflwynir yn gynrychiolaeth gywir o'r cwynion sy'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Gweler ynghlwm grynodeb o'r cwynion o gamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor.

Hefyd ynghlwm y mae crynodeb o'r cwynion y Cod Ymddygiad mewn cysylltiad ag aelodau'r Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn eich ardal.

**Camau i'w cymryd gan y Cyngor:**

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet i gynorthwyo aelodau yn eu swyddogaeth o graffu ar berfformiad y Cyngor
- Ymgysylltu â'm gwaith Safonau Cwynion, cael hyfforddiant i'ch staff a darparu data cwynion
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn **30ain Tachwedd**

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir

**Nick Bennett**
Ombwdsmon

Cc: Alison Ward, Prif Weithredwr
Caron Davies, Swyddog Cyswllt

# Taflen Ffeithiau

## A. Cwynion a Gafwyd

| Awdurdod Lleol | Cwynion a Gafwyd | Cwynion a gafwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 17 | 0.24 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 34 | 0.23 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 49 | 0.27 |
| Cyngor Caerdydd* | 122 | 0.33 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 42 | 0.22 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 31 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 29 | 0.25 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 32 | 0.34 |
| Cyngor Sir y Fflint | 61 | 0.39 |
| Cyngor Gwynedd | 37 | 0.30 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 26 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 13 | 0.22 |
| Cyngor Sir Fynwy | 16 | 0.17 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 22 | 0.15 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 39 | 0.25 |
| Cyngor Sir Penfro | 25 | 0.20 |
| Cyngor Sir Powys | 72 | 0.54 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 39 | 0.16 |
| Cyngor Abertawe | 92 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 5 | 0.05 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 30 | 0.23 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 33 | 0.24 |
| **Cymru** | **866** | 0.28 |

* gan gynnwys 1 Rhentu Doeth Cymru

## B. Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Torfaen** | **Cwynion a Gafwyd** | **Cyfran Ganrannol Cwynion** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 2 | 40.00% |
| Addysg | 1 | 20.00% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 20.00% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 1 | 20.00% |
| | 5 | |

## C. Canlyniadau Cwynion

(* yn dynodi ymyrraeth)

| **Cwynion a Gaewyd** | **Cynamserol/ Tu hwnt i amser/Hawl Apelio** | **Tu hwnt i Awdurdodaeth** | **Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol** | **Datrys yn Gynnar / Setliad Gwirfoddol*** | **Wedi rhoi'r gorau iddi** | **Adroddiadau Eraill - Heb eu Cadarnhau** | **Adroddiadau Eraill wedi'u Cadarnhau - yn gyfan gwbl neu'n rhannol*** | **Adroddiad Budd y Cyhoedd** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 5 |
| Cyfran Ganrannol | 40.00% | 0.00% | 40.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 20.00% | 0.00% | |

## D. Nifer yr achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 17 | 6% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 34 | 3% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 6 | 50 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 21 | 120 | 18% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | - | 1 | 0% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 6 | 46 | 13% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 4 | 30 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6 | 34 | 18% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 2 | 32 | 6% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8 | 57 | 14% |
| Cyngor Gwynedd | 4 | 39 | 10% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 15 | 13% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 15 | 13% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 4 | 25 | 16% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 38 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 7 | 29 | 24% |
| Cyngor Sir Powys | 14 | 71 | 20% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 5 | 40 | 13% |
| Cyngor Abertawe | 4 | 93 | 4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 1 | 5 | 20% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 4 | 27 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 33 | 12% |
| **Cyfanswm** | **113** | **879** | **13%** |

**E. Cwynion yn ymwneud â’r Cod Ymddygiad a Gaewyd**

| **Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol** | **Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol** | **Wedi rhoi'r gorau iddi** | **Dim tystiolaeth o dorri’r cod** | **Dim angen gweithredu** | **Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** | **Cyfeirio at y Panel Dyfarnu** | **Tynnwyd yn ôl** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Torfaen | 5 | 2 | - | - | - | - | - | 7 |

**F. Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned**

| Cyngor Tref/ Cyngor Cymuned | Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri’r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Blaenafon | 3 | - | - | - | - | - | - | 3 |

**Atodiad**

**Nodiadau Esboniadol**

Darperir adran A ddadansoddiad o nifer y cwynion yn erbyn yr Awdurdod Lleol a gafwyd yn ystod 2019/20, a nifer y cwynion fesul 1,000 o breswylwyr (poblogaeth).

Darparir Adran B dadansoddiad o nifer y cwynion am yr Awdurdod Lleol a dderbyniwyd gan fy swyddfa yn 2019/20.  Mae'r ffigurau wedi'u cyflwyno yn ôl categorïau pwnc gan ddefnyddio cyfran ganrannol.

Darparir adran C canlyniadau'r cwynion ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn ystod 2019/20, gyda'r gyfran ganrannol.

Darparir Adran D y nifer a chanran o achosion a dderbyniwyd gan OGCC lle bu rhaid ymyrryd.  Mae hyn yn cynnwys yr holl gwynion a gadarnhawyd, datrysiadau cynnar a setliadau gwirfoddol.

Darparir Adran E dadansoddiad o ganlyniadau'r holl gwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr yn ystod 2019/20.

Darparir Adran F dadansoddiad o ganlyniadau'r cwynion Cod Ymddygiad yn erbyn Cynghorau Tref/Cymuned.

**Adborth**

Rydym yn croesawu eich adborth ar y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw wybodaeth sydd i'w hamgáu mewn crynodebau blynyddol yn y dyfodol.  Dylid anfon unrhyw adborth neu ymholiadau drwy e-bost at cyfathrebu@ombwdsmon-cymru.org.uk